**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**
Communities, Equality and Local Government Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru

**15 Mehefin 2015**

**Gwaith etifeddiaeth y Pwyllgor: cais am ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor yn eich portffolio**

Annwyl Weinidog

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno yn ddiweddar i gynnal adolygiad o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Fel rhan o'r gwaith etifeddiaeth hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar ein hymchwiliadau i bolisi â'r bwriad o asesu effeithiau'r casgliadau a'r argymhellion a geir yn ein hadroddiadau amrywiol.

I gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn ein hadroddiadau sy'n berthnasol i'ch portffolio, sef:

– Masnachu pobl

– Rhwystrau i adeiladu cartrefi

– Addasiadau i'r cartref

– Tai fforddiadwy

– Aflonyddu ar sail anabledd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

Yn ogystal, byddem yn hoffi i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu darpariaethau Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) a Deddf Tai (Cymru) 2014.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 24 Gorffennaf.

Yn dilyn hyn, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar yn gynnar yn nhymor yr hydref er mwyn helpu i lywio ein gwaith etifeddiaeth. Rwyf wedi gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddfa i wneud y trefniadau ymarferol.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd**